

Disgrifiad Swydd: Tiwtor Drama Llawrydd

Teitl y Swydd: Tiwtor Drama Llawrydd
Cyflog: £1,200 am y prosiect
Contract: 8 x gweithdy wythnosol 2 awr o hyd
8 x sesiwn gynllunio 1.5 awr o hyd
Yn adrodd i: Rheolwr Dysgu a Chyfranogi

Diben y swydd

Mae'r rôl yn gweithio mewn partneriaeth â phedair ysgol gynradd leol. Y nod yw datblygu sgiliau llefaredd a chaffael iaith gyda grŵp dethol o 20 disgybl o gefndiroedd difreintiedig yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 2). Mae gan yr ysgolion partner ganran uchel o ddisgyblion o gefndiroedd amrywiol lle na siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, ac mae llawer o'r disgyblion hyn yn dechrau yn yr ysgol heb lawer o hyder mewn defnyddio iaith i fynegi eu syniadau, eu meddyliau a'u teimladau.

Bydd pob ysgol yn nodi 5 plentyn a fydd yn dod at ei gilydd i Chapter am fore'r wythnos dros gyfnod o 8 wythnos, drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd 2019. Bydd y plant hyn hefyd yn cael cyfle i weld sioe theatr broffesiynol i blant yn Chapter. Bydd un athro neu gynorthwydd dysgu o bob ysgol yn mynychu'r gweithdai wythnosol hefyd, er mwyn cael profiad i fynd yn ôl gyda nhw i'w dosbarthiadau ac at y corff staff ehangach, gan arwain at fantais i fwy o ddisgyblion yn yr hirdymor.

Cyfrifoldebau

- Cynllunio a darparu wyth gweithdy drama wythnosol, yn cynnwys cynllun trosfwaol 8 wythnos a fydd yn dangos sut bydd pob wythnos yn datblygu'r sgiliau o'r wythnos flaenorol.
- Dosbarthu cynllun gweithdy'r wythnos ganlynol i'r holl randdeiliaid o leiaf 4 diwrnod cyn dyddiad y gweithdy.
- Sicrhau bod yr holl daflenni gwaith a/neu ddeunyddiau atodol wedi'u paratoi ac yn barod ar gyfer pob gweithdy.
- Llunio dyddiadur sesiwn bob wythnos, gydag arsylwadau yn nodi datblygiad sgiliau'r cyfranogwyr
- Arwain a rheoli'r gweithgareddau drama yn y gofod drama.
- Ystyried defnyddio'r pedwar cynorthwydd dysgu, a sut gallwch ddatblygu eu sgiliau drwy eu cynnwys yn eich gweithdy.
- Cynnal ethos cadarnhaol, sy'n canolbwyntio ar ddrama fel teclyn ar gyfer datblygiad a thwf.
- Bod yn agored i archwilio dulliau newydd o weithio, ac i ddatblygu'ch sgiliau fel hwylusydd drama.
- Sicrhau bod eich ymddygiad yn unol â pholisi Diogelu Plant Chapter ar bob adeg
- Bod yn hunan-gynhaliol o ran gwaith gweinyddol.

- Cynnal trafodaeth werthuso ar ôl y prosiect gyda Rheolwr Dysgu Chapter
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol o dro i dro.
- Sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r rheoliadau diogelu diweddaraf.
- Gallu tywys y plant o'r adeilad yn ddiogel pe bai'r angen yn codi

Manyleb yr Unigolyn

Hanfodol

- Cymhwyster ar Lefel Gradd mewn Drama, neu brofiad gwaith cyfwerth.
- Gallu rheoli grŵp mawr o blant bach.
- Profiad helaeth o gynnal gweithdai a gweithio gyda phobl ifanc.
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Sgiliau rheoli amser ardderchog.
- Gallu wedi'i brofi i feddwl yn greadigol ac yn hyblyg.
- Bod yn ddibynadwy ac yn ymroddedig i weithredu prosiect hyd at ei ddiwedd.
- Creadigrwydd ac egni cadarnhaol, gan greu profiad unigryw a hwyl ar gyfer y cyfranogwyr ifanc.
- Profiad blaenorol o arwain prosiectau drama'n seiliedig ar archwilio.
- Gwiriad Uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Dymunol

- Dealltwriaeth gynhwysfawr o gwricwlwm cynradd Cymru.
- Profiad blaenorol yn cynnal prosiectau drama ar gyfer Cyfnod Allweddol 1
- Profiad blaenorol o weithio gyda phlant sydd â lefel sgiliau iaith isel
- Dealltwriaeth o dirlun newidiol addysg yng Nghymru yng nghyd-destun Adroddiad Donaldson
- Dealltwriaeth o bump arfer creadigol y meddwl, fel y'u disgrifir yng Nghynllun Ysgolion Creadigol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn gynhwysfawr.

Dylech anfon Datganiad o Ddiddordeb a CV i apply@chapter.org erbyn 5yh ddydd Iau 12 Medi 2019

Cynhelir cyfweiliadau ddydd Mercher 18 Medi 2019

Prosiect yn Dechrau: wythnos yn dechrau 1 Hydref 2019